



Ffactorau llwyddiant ar gyfer contractio a dyfarnu masnachfreintiau gwasanaethau bysiau yng Nghymru

Cipluniau astudiaethau achos
lefel uchel

Rhestr o'r Cynnwys

Astudiaethau achos rhyngwladol

Jersey	p. 4
Iwerddon	p. 5
Ruter	p. 6
Västtrafik	p. 7
Singapore	p. 8

Astudiaethau achos sy'n dod i'r amlwg yn y DU

Awdurdod Cyfun Swydd Gaergrawnt a Peterborough	p. 10
Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl	p. 11


***Ruter** yw'r awdurdod trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer **Oslo ac Akershus**, Norwy

*Awdurdod trafnidiaeth gyhoeddus **Västtrafik** ar gyfer gorllewin Sweden (**Västra Götaland**), Sweden

Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru i ddarparu tystiolaeth yn sail i Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ac i gefnogi Trafnidiaeth Cymru gyda'r penderfyniadau gweithredu allweddol ynghylch contractio a dyfarnu masnachfreintiau gwasanaethau bysiau yng Nghymru.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o gyfres o allbynnau sy'n archwilio tystiolaeth academaidd ac ymarferol o ran y ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer contractio a dyfarnu masnachfreintiau gwasanaethau bysiau yng Nghymru.



Mae cymharu gwahanol fodolau masnachfreinio bysiau yn heriol oherwydd eu cyd-destunau unigryw. I oresgyn hyn, fe wnaethom addasu fframwaith van de Velde (1999) “Strategaeth, Tactegau a Gweithrediadau (STO)” i lunio astudiaeth achos lefel uchel ar ffurf “cipolygon” i gyd-gymharu sut mae awdurdodau trafnidiaeth gyhoeddus eraill wedi llywodraethu, contractio a dyfarnu gwasanaethau bysiau. Mae'r fframwaith Strategaeth, Tactegau a Gweithrediadau, a gaiff ei grynhoi yn y tabl isod, yn arbennig o werthfawr ar gyfer tynnu sylw at y ddeinameg ffurfiol ac anffurfiol rhwng awdurdodau a gweithredwyr. Mae'n helpu i symud y tu hwnt i gategoreiddio a gwahaniaethau gor-syml, gan gynnig mewnwleidiad dyfnach i arwain penderfyniadau gweithredu.

Nodyn ar y 'lefelau': Yn dibynnu ar y model masnachfreinio bysiau, bydd cyfansoddiad y actorion, a phwy sy'n dal y cyfrifoldeb neu'r dylanwad dros beth, yn newid ar bob un o'r lefelau hyn. Gwerth fframwaith STO yw ei fod yn dal naws llywodraethu trafnidiaeth a'r berthynas rhwng lefelau S/T a T/O yn well.

Nodyn ar y fethodoleg: Oherwydd cyfyngiadau methodolegol, dylid ystyried y cipolygon hyn fel dehongliad o waith Dr van de Velde. I lunio'r cipolygon hyn, roedd awduron yr astudiaethau achos wedi ymateb i dempled strwythuredig a ddatblygwyd gyda chymorth Dr van de Velde. Er bod y templed yn seiliedig ar y fframwaith Strategaeth, Tactegau a Gweithrediadau, ehangodd hefyd i gasglu gwybodaeth fanylach am contractio a dyfarnu ac i ymateb yn well i brif gwestiynau'r ymchwil.

MACRO	Lefel	Golwg	Diffiniad	Beth sy'n digwydd	Ffocws	
	Strategol Beth ydym ni eisiau ei gyflawni?	Tymor hwy ~5 mlynedd neu fwy	Mae cynllunio strategol yn cynnwys gosod amcanion eang a phenderfynu sut i'w cyflawni. Mae'r lefel hon yn cymryd y cam cyntaf ar gyfer creu a chyflenwi gwasanaethau.	Llywodraethu trafnidiaeth; perthnasoedd; amcanion a nodau sylfaenol rôl bysiau mewn trafnidiaeth integredig; lefelau cymorthdaliadau	Polisi trafnidiaeth, cyfran o'r farchnad, proffidioldeb cymorthdaliadau, amcanion polisi cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach	<i>Pryderon cyffredinol am y gwasanaeth:</i> Ardaloedd; Grwpiau targed, Rhyng-foddolrwydd; Safonau lefel gwasanaeth
					Meddalwedd Beth sy'n helpu i werthu	Caledwedd Cilometrau cerbydau
	Tactegol Pa wasanaethau all helpu i gyflawni'r nodau hyn?	Tymor canolig ~1-3 blynedd	Mae'r lefel dactegol yn trosi nodau yn gynllunio gwasanaeth manwl. Mae'n penderfynu ar: beth i'w gaffael i gyrraedd y nodau strategol, sut i ddylunio gwasanaethau, a sut i fod yn effeithlon.	Manyleb gwasanaeth; Cynllunio amserlen; Rheoli contractau; Rheoli perfformiad; Lefelau gwasanaeth ac arbedion maint; Ffactorau galluogi allweddol	Prisiau, brand/delwedd, gwasanaethau ychwanegol	Cerbydau, llwybrau, amserlen
MEICRO	Gweithredol Sut i gynhyrchu'r gwasanaethau hyn?	Tymor byr ~1-6 mis	Trosi'r agweddau tactegol i'r dydd i ddydd. Mae'r lefel hon yn gweithredu'r manylebau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mewn ffordd effeithlon.	Cyflenwi/cynhyrchu gwasanaethau; Rheoli pobl (ymddygiad teithwyr a staffio); Galw am lwybrau; Gwybodaeth am y farchnad	Gwerthu, cyfathrebu, data, staffio, rheolaeth o ddydd i ddydd	Rheoli seilwaith, Rhestru a chynnal a chadw cerbydau, Rhestru personél

Astudiaethau achos rhyngwladol

ASTUDIAETH ACHOS: Jersey

Awdurdod Trafnidiaeth: Adran Seilwaith a'r Amgylchedd (Adran Drafnidiaeth) ar ran Llywodraeth Jersey
Gweithredwr: CT Plus Jersey Ltd (LibertyBus) is-gwmni i Kelsian UK

Cost net / Gros

Dull cyffredinol: Mae gan Jersey fodel cymhorthdal cost net gyda chyfran o elw ar gyfer yr holl wasanaethau bysiau cyhoeddus a bysiau ysgol. Mae hefyd yn fodel un gweithredwr a ddyfermir ar sail tendr ansawdd-cost.

Aeddfedrwydd

Ers 2001 mae Jersey wedi datblygu ei dull presennol o dendro cystadleuol gan gynnwys cael model cost gros o 2006-2012.

Dechreuodd y fasnachfrait cost net gychwynnol yn **2013** gan gael ei **ail-dendro yn 2024**.

Trosolwg o'r contract

Llwybr / Ardal / Rhwydwaith / Cymysg:

Yr hyn sydd wedi'i gontractio:
Rhwydweithiau gwasanaethau cyhoeddus ac ysgolion sy'n cwmpasu Jersey gyfan, yn cynnwys:

- 25 o lwybrau cyhoeddus yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn, 7 diwrnod yr wythnos
- 65 o deithiau dyddiol i ac o ysgolion

Hyd y contract:
10 mlynedd, gyda hyd at dri estyniad posibl o 1 flwyddyn. Mae estyniadau yn seiliedig ar gyflawni a chynnal amcanion a bennir yn y contract.

Cymhellion a pherfformiad:

- DPA cerrig milltir estyniad contract
- Targedau DPA misol a blynyddol i asesu perfformiad cyffredinol gweithredwyr
- Mae'r gweithredwr yn cadw refereniw prisiau
- Rhannu elw rhwng yr Awdurdod a'r Gweithredwr
- Dim cymhwyster cyn-dendro yn y dyfodol

Gorfodi allweddol:

- Cadw taliad cymhorthdal o 20% mewn ôl-ddyledion
- Mae methiannau gwasanaeth yn arwain at ddirwyon o hyd at 200% o gost y gyrrwr a'r milltroedd

Hyblygrwydd contract a gwasanaeth

Isel = sefydlog, Wedi'i bennu gan yr awdurdod
Hyblyg
Uchel = agored, Rhyddid gweithredwr

1 – Yn ystod y broses dendro



2 – Yn ystod cyfnod dyfarnu'r contract



Perchnogaeth asedau a risg

- Awdurdod Contractio:** yn berchen ar ac yn darparu'r cyfleusterau gweithredol heb rent i'r gweithredwr e.e. depo, gorsaf fysiau.
- Gweithredwr:** yn berchen ar ac yn darparu'r holl offer gweithredol e.e. cerbydau, peiriannau tocynnau, offer cynnal a chadw, a systemau gweithredu swyddfa gefn.
- Er mwyn lliniaru risg gwasanaeth, mae gan yr Awdurdod hawliau camu i mewn i'r holl asedau gweithredol os methir â chyflawnir/terfynir y contract.

LLYWODRAETHU A THENDRO CYSTADLEUOL

STRATEGOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

Arferion gwaith

Mae strategaethau'n deillio o bolisiau'r Llywodraeth neu fenter(mentrau) gweithredwyr, neu'r ddau.

TACTEGOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

					Prisiau
					Llwybrau
					Amserlenni
					Math o gerbyd
					Amh

GWEITHREDOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

Arferion gwaith

Mae materion gweithredol a hyrwyddo'r gwasanaeth i gyd yn gyfrifoldeb i'r gweithredwr.

Cyfrifoldebau:

Pryderon polisi Safonau

- Polisi trafnidiaeth gynaliadwy'r llywodraeth a chymhelliant gweithredwyr i gynyddu twf teithwyr.
- Safonau gweithredol perfformiad a nodir ym Manyleb y Gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Contract.

O ystyried daearyddiaeth a maint poblogaeth Jersey, mae'n cynnig tendr am un rhwydwaith. Nid oes unrhyw wahaniaethau rhanbarthol nac yn seiliedig ar ardal.

Mae gan yr Awdurdod **rywfaint** o ymwneud â **marchnata** a chyhoeddusrwydd y gwasanaeth.

Sut mae hyn yn dylanwadu ar gontractio:

- Mae polisi'r llywodraeth wedi'i wreiddio yn y fanyleb gwasanaethau, yn enwedig DPAAu ymestyn contract, manyleb cerbydau, a gwelliannau amlder.
- Ar gyfer y flwyddyn gyntaf o weithredu, mae prisiau, llwybrau ac amserlenni wedi'u pennu yn seiliedig ar y contract blaenorol.
 - Gall y Gweithredwr ddewis y math o gerbyd i fodloni manyleb gofynion y contract yn seiliedig ar y capasiti seddi lleiaf a bennir gan yr Awdurdod.
 - Yn dilyn y cyfnod cynefino, gall y Gweithredwr ofyn am newidiadau tactegol i'r Awdurdod gytuno arnynt.

Mae gwahaniaeth clir yn y contract rhwng materion rheoleiddio a gweithredol.

Dim ond goruchwyliaeth dros faterion gweithredol, a pherfformiad, sydd gan yr Awdurdod, gyda fetu ar amrywiadau neu newidiadau i'r gwasanaeth y cytunwyd arno.

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng trefol, lled-drefol, a gwledig oherwydd bod y rhwydwaith yn cael ei drin fel cyfanwaith cydlynol.

Awdurdod trafnidiaeth
Swyddfa drafnidiaeth
Llywodraeth rhanbarthol
Awdurdod lleol
Gweithredwr
Cymdeithas sifil/cwsmer

ASTUDIAETH ACHOS: Iwerddon

Awdurdod Cenedlaethol: Adran Drafnidiaeth dan arweiniad y Gweinidog Trafnidiaeth

Awdurdod Trafnidiaeth: Awdurdod Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTA)

Net / **Cost gros**

Darperir gwasanaethau bysiau trafnidiaeth gyhoeddus yn Iwerddon naill ai o dan gontract gwasanaeth

cyhoeddus gyda'r NTA neu o dan drwydded a gyhoeddir gan yr NTA. Mae contractau gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (PSO) a gallant fod yn: gontractau dyfarnu uniongyrchol (gyda gweithredwyr trafnidiaeth sy'n eiddo i'r wladwriaeth), contractau dyfarnu uniongyrchol brys, neu **contractau a dendrwyd yn gystadleuol ar sail cost gros.**

Mae gan yr NTA swyddogaeth statudol o ran rheoleiddio trwyddedau. Mae'n cymeradwyo ceisiadau gan weithredwyr bysiau am drwydded i weithredu gwasanaethau bysiau cyhoeddus. Mae hefyd yn gyfrifol am drwyddedu gwasanaethau teithwyr bysiau cyhoeddus, sy'n gweithredu heb gymhorthdal cyhoeddus.

Aeddfedrwydd: Dechreuodd tendro cystadleuol ar raddfa fawr yn **2017**. Mae hyd at ddau gylch tendro wedi digwydd hyd yn hyn (yn dibynnu ar y contract).

Llwybr / Ardal / Rhwydwaith / **Dull cymysg**

Yr hyn sydd wedi'i gontractio:

Amrediad yn dibynnu ar amodau: bwndeli llwybrau, rhwydweithiau Dinas, rhwydweithiau Tref, a llwybrau sengl.

Hyd y contract:

Contractau mwy (gan gynnwys dyfarnu uniongyrchol):

- Hyd at 7 mlynedd: 5 mlynedd + 1 fl + 1 fl

Contractau llai:

- Hyd at 5 mlynedd: ar sail 3+2+2 neu 3+2
- Mathau eraill o gontractau:
- Dyfarniadau uniongyrchol brys bob 2 flynedd lle mae'r NTA yn penderfynu bod PSO yn bodoli
- Cyfnodau byrrach yn dibynnu ar y contract

Cymhellion, perfformiad, a gorfodi:

- Taliadau cymhelliant lle mae perfformiad yn rhagori ar safonau perfformiad.
- Fframwaith Rheoli Perfformiad: prydlondeb, ansawdd gwasanaeth, arolygon osgoi ffioedd, safon "cilometr coll"
- Cyhoeddi Perfformiad a didyniadau Gweithredwr

Hyblygrwydd contract a gwasanaeth

Isel = sefydlog,
Wedi'i bennu
gan yr
awdurdod

Hyblyg

Uchel = agored,
Rhyddid
gweithredwr

1 – Yn ystod y broses dendro



2 – Yn ystod cyfnod dyfarnu'r contract



Perchnogaeth asedau a risg

Awdurdod (NTA):

- Risgiau referniw a chwyddiant
- Gyda eithriad cyfyngedig, fflyd a ddarperir gan yr NTA i Weithredwyr.
- Mae'r NTA yn cario'r risgiau o ddarparu cerbydau ychwanegol ar gyfer twf gwasanaeth, tagfeydd, ac ati.
- Offer a systemau tocynnau ac AVL wedi'u darparu gan yr NTA.

Gweithredwr:

- Darperir depos gan **Weithredwyr**, ond bydd seilwaith strategol yn cael ei ddarparu gan yr NTA yn y dyfodol.
- Risgiau cynhyrchu a pherfformiad: e.e. bodloni safonau perfformiad, staffio, cynnal a chadw fflyd, a diogelu referniw

STRATEGOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

- Gweinidog Trafnidiaeth
- Adran Drafnidiaeth
- Awdurdod Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTA)

Cyfrifoldebau:

- Pryderon polisi*
- Safonau*
- Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cyllid
- Strategaeth dendro
- Strategaeth prisiau cenedlaethol

Sut mae hyn yn dylanwadu ar gontractio:

- Blaenoriaethau, dyrannu cyllid cyllidebol Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus (PSO) i'r NTA ar gyfer darparu gwasanaethau

TACTEGOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

- Prisiau
- Llwybrau
- Amserlenni
- Math o gerbyd
- Technoleg

Mae'r NTA yn dylunio'r rhwydwaith gyda gwahaniaethau rhanbarthol mewn:

- Amserlenni
- Perchnogaeth depos
- Perchnogaeth fflydoedd
- Cyfundrefnau contractio symlach

Mae'r NTA yn gyfrifol am: nodi'r PSO i lywio cynllunio a manyleb gwasanaethau (e.e. llwybrau, gofynion amserlen, amlder gwasanaethau, cerbydau, gofynion gwasanaeth cwsmeriaid). Mae'n llunio contractau ac yn gosod safonau perfformiad.

Gall gweithredwyr negodi telerau ac amodau contract yn ystod y broses ddyfarnu. O dan y contract, gall Gweithredwyr gynnig amrywiadau gwasanaeth i wella effeithlonrwydd yn amodol ar gymeradwyaeth yr NTA.

GWEITHREDOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

- Gwerthiannau
- Gwybodaeth
- Personél
- Cynnal a Chadw

Cyfrifoldeb yr NTA yw Gwerthu/Marchnata: darperir un brand 'Transport for Ireland' ar gyfer gwybodaeth teithio.

- Gan y gweithredwr mae'r risg cynhyrchu, gan gynnwys darparu personél a chynnal a chadw'r bysiau.
- Rhaid darparu data perfformiad gweithredol i system rheoli data'r NTA er mwyn monitro perfformiad yn erbyn safonau penodol.

Yr actorion allweddol ar y lefel hon yw'r NTA (Awdurdod Trafnidiaeth) a Gweithredwyr dan gontract.

Ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gwledig: Mae gan Iwerddon gynllun ar wahân ledled y wlad o dan faner Local Link (rhan o'r NTA ond ar wahân i CT). Mae trefniadau caffael a chontractio symlach yn berthnasol.

ASTUDIAETH ACHOS:
Singapore

Awdurdod Trafnidiaeth: Awdurdod Trafnidiaeth Tir (LTA)

Cost net / **Cost gros**

Dull cyffredinol: Mae'r Model Contractio Bysiau yn **fodel contractio cost gros** ar gyfer gwasanaethau bysiau cyhoeddus yn Singapore. Mae asedau a seilwaith bysiau yn eiddo i'r Llywodraeth er mwyn lleihau rhwystrau mynediad. Mae gweithredwyr bysiau yn bidio am yr hawl i weithredu drwy dendro cystadleuol.

Aeddfedrwydd

Ers **Medi 2016** gyda chyfanswm o 8 tendr ar gyfer 7 pecyn hyd yn hyn.

Llwybr / **Ardal (pecynnau)** / Rhwydwaith / Cymysg:

Yr hyn sydd wedi'i gcontractio:
Yr hawl i weithredu **llwybrau bysiau** ac ymgymryd â gweithrediadau mewn depos bysiau angor, cyfnewidfeydd, yn gyfnewid am ffi gwasanaeth sy'n daladwy gan yr Awdurdod.

Mae llwybrau wedi'u grwpio yn **14 pecyn bws** yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol. Mae pob pecyn ar gyfer 300-500 o fysiau, yn cefnogi 25-30 o lwybrau, wedi'u canoli ar ddepo bysiau angor. Gyda chynigion cystadleuol, mae **pecynnau bws** yn cael eu dyfarnu yn seiliedig ar y gwerth gorau am arian.

Hyd y contract:
5 mlynedd gyda'r posibilrwydd o estyniad o 2-5 mlynedd yn amodol ar berfformiad. Mae'r LTA yn tendro am 1-2 pecyn ar gyfartaledd, bob blwyddyn.

Cymhellion a pherfformiad:

- Fframwaith Dibynadwydd Gwasanaeth Bysiau
- Anghymhellion:** Gofynion Archwilio Cynnal a Chadw ar asedau, seilwaith a systemau bysiau

Gorfodi allweddol:

- Cyfarfodydd chwarterol rhwng yr LTA a phob Gweithredwr ar gyfer adrodd ac adolygu perfformiad
- Mae'r LTA yn cynnal nifer o archwiliadau a gwiriadau ad hoc ar Weithredwyr

Hyblygrwydd contract a gwasanaeth

Isel = sefydlog,
Wedi'i bennu
gan yr
awdurdod

Hyblyg

Uchel = agored,
Rhyddid
gweithredwr

1 – Yn ystod y broses dendro



2 – Yn ystod cyfnod dyfarnu'r contract



Perchnogaeth asedau a risg

Yr **LTA sy'n cario risg referniw lawn** y system bysiau cyhoeddus ac yn cymryd risgiau chwyddiant a chyllid. Mae'n ariannu asedau gweithredol a seilwaith i alluogi Gweithredwyr i ganolbwyntio ar faterion gweithredol.

LTA: yn berchen ar asedau gweithredu a seilwaith bysiau gan gynnwys: depos, cyfnewidfeydd, gorsafoedd terfynol, bysiau, offer gwefru ac ati.

Gweithredwyr: yn gyfrifol am weithrediadau a chynnal a chadw, ond gyda goruchwyliaeth lem gan yr LTA. Mae hyn yn cynnwys recriwtio, hyfforddi a chyflawni safonau gwasanaeth uchel.

Mae'r dull hwn wedi arwain at Weithredwyr yn cynnig am elw is, o'i gymharu â modelau CT eraill, gan mai dim ond risg gweithredol y mae'r Gweithredwyr yn ei chario.

Awdurdod Trafnidiaeth
Trafnidiaeth Gyhoeddus
Cyngor
Llywodraeth ranbarthol
Awdurdod lleol
Gweithredwr
Cymdeithas stil/cwsmer

Pwy sy'n rhan o hyn?



Cyfrifoldebau:

Arferion gwaith a chyfrifoldebau
Yr **LTA** sydd â'r rôl ganolog o gynllunio llwybrau bysiau a safonau gwasanaeth a monitro cydymffurfiaeth gweithredwyr â gofynion gweithredol a chytundebol.

Y **Cyngor Trafnidiaeth Gyhoeddus (PTC)** sy'n rheoleiddio prisiau trafnidiaeth gyhoeddus a systemau talu tocynnau er mwyn cyflawni system drafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy a fforddiadwy. Gall cymudwyr gyfeirio cwestiynau, adborth ac awgrymiadau at yr LTA, y PTC, a/neu'r Gweithredwyr.

Sut mae hyn yn dylanwadu ar gcontractio:

Mae manylebau tendr wedi'u strwythuro yn unol â chymhellion sy'n seiliedig ar berfformiad, gan ddiffinio safonau gwasanaeth a DPAAu gweithredol i yrru atebolrwydd Gweithredwyr.

Yn ystod tymor y contract, mae LTA yn gweithio gyda Gweithredwyr i yrru mentrau cydweithredol ar gyfer canlyniadau lle mae pawb ar eu hennill.

STRATEGOL

Pwy sy'n rhan o hyn?

					Prisiau
					Llwybrau
					Amserlenni
					Math o gerbyd
					Amh
					Amh

Yr **LTA** sy'n cynllunio llwybrau bysiau, yn caffael asedau bysiau, ac yn monitro perfformiad yn ôl safonau gwasanaeth penodedig a chydymffurfiaeth â gofynion gweithredol a chytundebol.

Gyda ffocws ar drydaneiddio, a chynlluniau ar gyfer defnyddio bysiau trydan ar raddfa fawr, diweddarwyd manylebau tendr LTA gyda chais am **Gynlluniau gweithredwyr ar gyfer cefnogi trydaneiddio'r ffylid**.

Yn ystod y cyfnod dyfarnu **gall Gweithredwyr barhau i arloesi** i wella effeithlonrwydd y gwasanaethau, ond i ysgwyddo costau buddsoddi mewn systemau ychwanegol i wella gweithrediadau a/neu fonitro effeithlonrwydd.

TACTEGOL

Pwy sy'n rhan o hyn?



Arferion gwaith
Gweithredwyr sy'n gweithredu'r gwasanaethau bysiau a chynnal a chadw asedau, seilwaith a systemau bysiau.

LTA sy'n olrhain perfformiad Gweithredwyr.

Gwerthiannau
Gwybodaeth
Personél
Cynnal a Chadw
Gweithlu

Mae **Gweithredwyr** yn cynnig am: yr hawl i weithredu gwasanaethau; rheoli gweithrediadau dyddiol i fodloni safonau perfformiad (gan amlinellu eu gofynion adnoddau a systemau i fonitro perfformiad gwasanaethau); casglu a gorfodi prisiau a gymeradwywyd gan y Cyngor Trafnidiaeth Gyhoeddus; a buddsoddi mewn recriwtio, hyfforddi staff, cynyddu proffesiynoldeb y gweithlu bysiau.

Gan ddysgu o ffurflenni tendro yn y gorffennol, addasodd yr LTA ofynion darpar dendrau i leihau costau gweithredol heb beryglu ein safonau gweithredol a chynnal a chadw.

Nid oes gan Singapore unrhyw weithrediadau bysiau gwledig gan ei fod wedi'i drefoli'n fawr.

Trosolwg o'r contract

LLYWODRAETHU A THENDRO CYSTADLEUOL

ASTUDIAETH ACHOS:
Västtrafik, Gorllewin Sweden

Llywodraeth Ranbarthol: Rhanbarth Västra Götaland
Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol: Västtrafik

Net / Cost gros

Dull cyffredinol: dull sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar gyfer tendro cystadleuol gwasanaethau bysiau, trên a fferi gan ddefnyddio contractau cost gros hirach gyda chymhellion.

Dros amser, mae Västtrafik wedi datblygu model cydweithredol sy'n pwysleisio partneriaeth â 40 o Weithredwyr a bod yn contractwr deniadol.

Aeddfedrwydd

Dechreuodd tendro cystadleuol yng Ngorllewin Sweden ym 1995. Mae contractau erioed wedi bod yn 8-10 mlynedd gyda chylchoedd tendro rheolaidd (o leiaf yn flynyddol) ar gyfer gwahanol ddulliau, gan gynnwys bysiau, er mwyn cynnal cymhwysedd tendro o fewn yr awdurdod.

Llwybr / Ardal / Rhwydwaith / Cymysg:

Yr hyn sydd wedi'i gontractio:

Pob dull ac eithrio tramiau. Yn gyffredinol, mae contractau ar gyfer ardal, ond mae bysiau cyflym yn cael eu tendro yn ôl llwybrau mewn pecyn. Yn Gothenburg, mae bysiau'n cael eu tendro mewn tair rhan h.y. mae gan bob tendr draean o'r gwasanaeth.

Mae'r model presennol yn gwerthuso cyfuniad o bris ac ansawdd a addawyd. I ddechrau, pris oedd yr unig faen prawf. Er mwyn cynnal cystadleuaeth iach, ni chaniateir cynigion cyfunol. Er y gall y rhain ostwng pris, gall busnesau bach a chanolig golli allan.

Hyd y contract: Fel arfer, mae contractau am 10 mlynedd heb estyniadau. Dangoswyd bod contractau hirach yn rhoi gwell gwerth am arian gan fod Gweithredwyr yn defnyddio hyd y contract ar gyfer dibrisiant bysiau.

Cymhellion a pherfformiad: Mae nifer y teithwyr; dilysu tocynnau ar y cerbyd; a phrydlondeb yn fesurau allweddol ar gyfer cymhellion. Yn ogystal, rhoddir bonysau yn seiliedig ar foddhad cwsmeriaid.

Gorfodi allweddol: Rhoddir dirwyon am lwybrau sydd wedi'u canslo, am beidio â chyrraedd y lefelau ansawdd a addawyd, ac am beidio â chydymffurfio â manyleb bysiau.

Hyblygrwydd contract a gwasanaeth

Isel = sefydlog, Wedi'i bennu gan yr awdurdod
Hyblyg
Uchel = agored, Rhyddid gweithredwr

1 – Yn ystod y broses dendro



2 – Yn ystod cyfnod dyfarnu'r contract



Perchnogaeth asedau a risg

Västtrafik:

- Yn berchen ar neu'n rhentu depos strategol yn y dinasoedd.
- Yn gyfrifol am sicrhau bod gan ddepos bysiau (gan gynnwys rhai gwledig) ddigon o bŵer trydan i wefru'r fflyd gyfan, sy'n allweddol ar gyfer cystadleuaeth iach.
- Västtrafik a'r llywodraeth Ranbarthol sy'n berchen ar bob canolfan deithio.
- Västtrafik hefyd sy'n berchen ar yr holl drenau, tramiau a rhai o'r fferïau.

Gweithredwyr:

- Perchen ar fysiau.
- Rhedeg y ganolfan rheoli i reoli'r fflyd.
- Rheoli'r depos ac eithrio mewn ardaloedd gwledig lle mae Gweithredwyr yn berchen ar y depos.
- Yn gyfrifol am yr unedau gwefru ar gyfer eu fflyd bysiau trydan.

STRATEGOL

TACTEGOL

GWEITHREDOL

Pwy sy'n rhan o hyn?




Aferion gwaith a chyfrifoldebau

Llywodraeth ranbarthol: yn gosod y nodau hirdymor gyda rhaglen ranbarthol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a thargedau a strategaethau ranbarthol megis ar gyfer yr hinsawdd a'r amgylchedd ac ardaloedd gwledig.

Västtrafik: yn pennu ac yn tendro'r gwasanaeth yn seiliedig ar y nodau hyn ac yn gweithio gyda Gweithredwyr, fel partneriaid, i'w cyflawni.

Yn genedlaethol yn Sweden, mae Awdurdodau Trafnidiaeth a Gweithredwyr yn cytuno ar safonau cenedlaethol megis bysiau, mynegeion, a'r amgylchedd.

Pwy sy'n rhan o hyn?



Cyfrifoldebau:

Västtrafik sy'n gyfrifol am y rhwydwaith a'r weledigaeth gyffredinol i wneud teithio cynaliadwy yn norm ond mewn cydweithrediad â **Gweithredwyr** partner.

Yr unig newid mawr ar draws meysydd gwasanaeth yw gyda meintiau pecynnau.

Pwy sy'n rhan o hyn?



Gweithredwyr sy'n gyfrifol am weithrediadau dyddiol, personél, amserlenni manwl, cynnal a chadw bysiau, a mewnbwn i'r system wybodaeth. Mae Gyrwyr hefyd yn gwneud adrodd data â llaw e.e. gydag osgoi taliadau.

Västtrafik sy'n gyfrifol am werthiannau (yn bennaf yn seiliedig ar apiau), yr holl systemau gwybodaeth, a marchnata. Mae hefyd yn helpu, os/pan fo angen, gydag addysg a hyfforddiant gyrwyr.

Y gwahaniaethau allweddol ar gyfer ardaloedd gwledig yw bod depos fflyd a gwledig yn eiddo i Weithredwyr a bod pecynnau contract yn llai gyda llai o gymhellion. Mae'r llywodraethu a'r contract yr un fath i raddau helaeth ar draws dulliau ac ardaloedd, ac eithrio Tramiau.

Sut mae hyn yn dylanwadu ar gontractio:

Mae strategaethau ranbarthol a chenedlaethol allweddol yn effeithio ar gaffael a dylunio a darparu gwasanaethau e.e.: mae strategaeth ranbarthol ar yr hinsawdd wedi arwain at fflyd gynyddol o fysiau trydan (dros 500 dinas a 100 rhanbarthol); strategaeth ar lefelau gofynnol o drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer ardaloedd gwledig; a strategaethau cydraddoldeb cenedlaethol a rhanbarthol i wneud trafnidiaeth gyhoeddus i bawb.

Mae pob cylch tendr yn cymryd sawl blwyddyn gan ddechrau gyda rhagastudiaeth ac yna ymgynghoriadau ar y cyd ac unigol. Mae dogfennau tendro yn seiliedig ar safonau cenedlaethol ac yn manylu'n fanwl ar amserlenni, math o gerbyd, oedran uchaf ac oedran cyfartalog bysiau, llwybrau ac ati. Wrth fynd ar drywydd cadwyn gyflenwi gynaliadwy, mae Västtrafik yn defnyddio sgoriau'r [Global Rights Index](#) i gymeradwyo cerbydau Gweithredwyr. Ni fydd yn derbyn bysiau o wledydd sydd â sgôr uchel nac wedi'u cynhyrchu gan wledydd felly heb archwiliad annibynnol.

Oherwydd prinder gyrwyr bysiau, ychwanegodd Västtrafik fanylebau ar wella amodau gwaith at ddogfennau tendr a gofyn am drosglwyddo gyrwyr pan fydd newid Gweithredwr yn digwydd.

Mae Västtrafik yn darparu pŵer i bob depo, tra bod Gweithredwyr yn darparu'r holl seilwaith gwefru ar gyfer eu bysiau cymeradwy.

Trosolwg o'r contract

LLYWODRAETHU A THENDRO CYSTADLEUOL

Astudiaethau achos sy'n dod i'r amlwg yn y DU

ASTUDIAETH ACHOS SY'N DOD I'R AMLWG:

Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl

Cost net / **Cost gros**

Mae hwn yn fodel masnachfreinio bysiau **sy'n dod i'r amlwg**. Lansiwyd y rownd gyntaf o gaffael ar **10 Chwefror 2025** gyda'r bwriad o ddyfarnu'r ddau gontract masnachfaint mawr cyntaf ym mis Tachwedd 2025.

Dull cyffredinol: Nod Dinas-Ranbarth Lerpwl (LCR) yw defnyddio manteision cystadleuaeth a gweithio mewn partneriaeth drwy fasnachfreinio bysiau i ddarparu rhwydwaith Metro integredig i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn LCR.

Gallu contractau a gwasanaethau i addasu

Isel = sefydlog,
Pennir yn ôl
awdurdod

**Modd ei
addasu**

**Uchel =
agored,**
Rhyddid
gweithredwr

1 – Yn ystod y broses dendro



2 – Yn ystod cyfnod dyfarnu'r contract



Trosolwg o'r contract

Llwybr / **Ardal** / Rhwydwaith / Cymysg:

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y contract:

Mae gan LCR ddau fath o gontract—mae pum contract **Categori 1** (mawr) ac wyth contract **Categori 2** (bach). Mae contractau'n mapio'n fras i ardaloedd cyngorau lleol: St Helens, Wirral, Sefton, North Knowsley Lerpwl, South Knowsley a Lerpwl).

Hyd y contract:

Pum mlynedd, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am ddwy flynedd.

Cymhellion a pherfformiad:

- Swm bonws o 2.5% yn seiliedig ar berfformiad gweithredol, ansawdd y gwasanaeth, partneru, a thwf mewn defnydd

Gorfodaeth allweddol:

- Swm didynnu o 2.5% yn seiliedig ar berfformiad gweithredol, ansawdd y gwasanaeth, partneru a thwf mewn defnydd
- Cosbau mewn contract
- Mae lefelau gwaelodlin wedi'u gosod er mwyn gwella o'r model presennol

Perchnogaeth asedau a risg

- Ar gyfer contractau **Categori 1**, mae'r Awdurdod Cyfun yn prynu depos a fflyd.
- Bydd yr asedau'n cael eu prydlesu i'r gweithredwyr am rent hedyn pupur (isel iawn neu enwol) a nhw fydd yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.

Yr awdurdod cenedlaethol
Transport for LCR (TfLCR)
Llywodraeth ranbarthol (CA)
Awdurdod lleol
Gweithredwr/Gweithredwyr
Cymdeithas sifil/cwsmer

Cyfranogwyr allweddol

Yr Awdurdod Cenedlaethol: Yr Adran Drafnidiaeth (DU)

Y Swyddfa Drafnidiaeth: Transport for LCR (TfLCR)

Llywodraeth Ranbarthol: Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl (CA)

STRATEGOL

Pwy sy'n cymryd rhan yn hyn?



Cyfrifoldebau:

Aferion gwaith a chyfrifoldebau

Yr Adran Drafnidiaeth (DU) sy'n gosod y polisi ar lefel genedlaethol gyda'r Llywodraeth Ranbarthol, Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl, yn canolbwyntio ar gyflawni a phenderfynu'n strategol sut i weithredu polisi a thrafnidiaeth ar gyfer LCR.


Y prif bryderon polisi yw: Sero net; Gwerth am arian; Integreiddio â dulliau trafnidiaeth eraill; Cynyddu cysylltiad a hyrwyddo symudedd.

Sut mae hyn yn dylanwadu ar gontractio:

- Y cwsmer wrth galon y gofynion
- Gwerth cymdeithasol wedi'i gynnwys mewn cynlluniau cyflawni
- Diogelu uchelgeisiau at y dyfodol gyda sero net a thocynnau

TACTEGOL

Pwy sy'n cymryd rhan yn hyn?



Prisiau siwrneiau

Llwybrau

Amserlenni

Math o gerbyd

Amh.

Amh.

Gan fod yr LCR yn ymdrechu i drin pob ardal yn deg ac yn gyfartal, nid oes gwahaniaethau tactegol ar sail ardal. Mae Ardoll Trafnidiaeth yn Halton.

CA LCR:

- Darparu fflyd Categori 1
- Pennu'r math o gerbyd a'i oedran ar gyfer fflyd Categori 2
- Gosod strategaeth prisiau siwrneiau
- Gosod llwybrau rhwydwaith

Gweithredwyr sy'n gyfrifol am greu amserlenni.

GWEITHREDOL

Pwy sy'n cymryd rhan yn hyn?



Aferion gweithio

*Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r model yn dal i ddatblygu ei ddull gweithredu ar gyfer: rheoli contractau a pherfformiad ar gyfer cyswllt dyddiol, wythnosol a/neu fisol â gweithredwyr, gan gynnwys cynlluniau perfformiad ac adroddiadau.

Gwerthiannau

Gwybodaeth

Personél

Cynnal a Chadw

Y gweithlu

Mae'r CA yn gyfrifol am y canlynol:

- marchnata a hysbysebu
- gwybodaeth am drafnidiaeth
- sylwadau cwsmeriaid

Gan mai ychydig o ardaloedd gwledig sydd yn LCR, nid oes newidiadau allweddol yn cael eu gwneud ar wahân i wasanaethau llai aml mewn ardaloedd llai trefol.

- Staff CA:** gweithredu gorsafoedd bysiau a Chanolfannau Teithio yn LCR
- Mae **cyfrifoldeb ar y cyd** dros werthu tocynnau. Mae gweithredwyr yn gwerthu tocynnau, ond mae TfLCR hefyd yn gwerthu tocynnau mewn Hybiau ac ar-lein
- Mae **gweithredwyr** yn gyfrifol am: yrwyr, peirianwyr, ac am gynnal a chadw fflyd a depos

TENDRO CYSTADLEUOL A LLYWODRAETHU

ASTUDIAETH ACHOS SY'N DOD I'R AMLWG:

Awdurdod Cyfun Swydd Gaergrawnt a Peterborough (CPCA)

Cost net / **Cost gros**

Mae hwn yn fodel masnachfreinio bysiau **sy'n dod i'r amlwg**. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yn dal yn y camau cynnar fel achos busnes gyda'r nod o ddechrau masnachfreinio bysiau yn **2027**.

Dull cyffredinol: Er mwyn cynllunio a darparu'r rhwydwaith bysiau mewn ffordd gynhwysfawr a chydlynol, mae CPCA yn ceisio defnyddio contractau cost gros sy'n cymell ansawdd yn seiliedig ar dair ardal sydd â nifer o 'lotiau' (pecynnau) o lwybrau wedi'u dyfarnu dros dair blynedd.

Gallu contractau a gwasanaethau i addasu

Isel = sefydlog,
Pennir yn ôl
awdurdod

**Modd ei
addasu**

**Uchel =
agored,**
Rhyddid
gweithredwr

1 – Yn ystod y broses dendro



2 – Yn ystod cyfnod dyfarnu'r contract



Trosolwg o'r contract

Llwybr / **Ardal (lotiau)** / Rhwydwaith / Cymysg:

Beth fydd yn cael ei contractio:

- Tair ardal gyda sawl 'lot' (pecynnau) o lwybrau o wahanol faint

Hyd y contract:

- Saith mlynedd** gydag estyniad fel rhan o'r cymhelliant ansawdd

Cymhellion a pherfformiad:

- Dyfarnu 2.5% yn ychwanegol o gcontractau blynyddol
- Cyfle i ymestyn contract

Gorfodaeth allweddol:

- Dim opsiwn i ymestyn y contract

Perchnogaeth asedau a risg

- Y gweithredwyr fydd yn berchen ar gerbydau a'r rhan fwyaf o ddepos
- Bydd dau ddepo newydd yn cael eu hadeiladu ochr yn ochr â lotiau mawr (pecynnau) ar gyfer dwy ddinas

Yr awdurdod cenedlaethol
Y swyddfa drafnidiaeth
Llywodraeth ranbarthol (CA)
Awdurdod lleol
Gweithredwr / Gweithredwyr
Cymdeithas sifil / cwsmer

Cyfranogwyr allweddol

Yr Awdurdod Cenedlaethol: Yr Adran Drafnidiaeth (DU)
Llywodraeth Ranbarthol: Awdurdod Cyfun Swydd Gaergrawnt a Peterborough (CPCA)

STRATEGOL

Pwy sy'n cymryd rhan yn hyn?



Cyfrifoldebau:

Sut mae hyn yn dylanwadu ar contractio:

Arferion gwaith a chyfrifoldebau


Yr Adran Drafnidiaeth (DU) sy'n gosod y polisi ar lefel genedlaethol gyda'r Llywodraeth Ranbarthol. Penderfyniad y maer ar gyfer masnachfreinio yn seiliedig ar Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (a adolygwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Bysiau 2017) yn dilyn y penderfyniad hwn, mai'r broses yw: Strategaeth Bysiau, Achos Busnes Amlinellol (y cam presennol), archwilio, ac ymgynghoriad a chymeradwyaeth CA.

Y prif bryderon polisi yw strategaeth bysiau a pholisi trafndiaeth lleol.

Cyfeiriad cyffredinol ac amcanion ar gyfer penderfyniadau busnes

TACTEGOL

Pwy sy'n cymryd rhan yn hyn?



Prisiau
siwrneiau

Llwybrau

Amserlenni

Math o gerbyd

Amh.

Amh.

CPCA yw'r ardal wledig gyntaf yn Lloegr i newid i fasnachfreinio bysiau. Ar hyn o bryd mae'n rhaid penderfynu a ddylai'r CA gadw'r rhwydwaith presennol, ei ddiwygio ychydig, neu wneud newidiadau sylweddol.

- Penderfyniad wedi'i graffu'n wleidyddol ynghylch beth i'w wneud
- Hefyd sut mae cyllid ac argaeledd depos yn chwarae rhan

GWEITHREDOL

Pwy sy'n rhan o hyn?



Gwerthiannau

Gwybodaeth

Personél

Cynnal a
Chadw

Y gweithlu

Arferion gweithio

Bydd gan weithredwyr presennol a newydd sy'n ymuno â'r farchnad faterion manwl sy'n ymwneud â gweithredu a chaffael cerbydau, cynnal a chadw ac adrodd i'r tîm Rheoli Contractau.

Ar hyn o bryd, y cynllun presennol yw bod gweithredwyr yn caffael y cerbydau yn unol â'r fanyleb

Un ystyriaeth bwysig yw sut gall gweithredwyr gaffael cerbydau ar amser ac yn unol â gofynion polisi

Ystyriaethau gwledig a threfol: Mae llwybrau trefol a llwybrau bysiau yn tueddu i fod yn broffidiol. Mae llwybrau gwledig a lled-drefol yn gwneud colledion. Mae canolbwyntio ar unwaith ar lwybrau gwledig yn effeithio ar y gyllideb refeniw. Mae angen i'r depos newydd fod yn barod ar gyfer rhwydweithiau trefol mawr.

TENDRO CYSTADLEUOL A LLYWODRAETHU

Cydnabyddiaeth

Hoffai Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ddiolch o galon i arbenigwyr yr awdurdodau trafnidiaeth a gyfrannodd eu hamser, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn hael drwy gydol y prosiect hwn. Roedd eu cyfraniad yn allweddol wrth lunio'r cipolygon lefel uchel hyn. Hoffem hefyd gydnabod y cydweithwyr a'r ymgynghorwyr a gefnogodd yr arbenigwyr hyn a/neu a chwaraeodd ran hollbwysig yn y gwaith o hwyluso'r cysylltiadau gwerthfawr hyn.

Gobeithiwn y bydd yr astudiaethau achos hyn, ac allbynnau ehangach y prosiect, o fudd i'r naill ochr a'r llall ac yn cynnig cymorth ystyrlon i'ch gwaith parhaus.



Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Josh Coles-Riley

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk



**Wales Centre
for Public Policy**
**Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru**



www.wcpp.org.uk

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ
Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ